# ADRODDIAD PANEL STRATEGOL DIOGELU

# 2021-22

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno trosolwg o waith y Panel Strategol Diogelu dros y cyfnod Ionawr 2021 – Mawrth 2022, gan roi darlun clir a theg o'r gwaith a gyflawnwyd, a chrynhoi barn archwilwyr allanol ar y gwaith.

1.2 Bydd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd gan y Cyngor ei hun, a chan y Cyngor mewn partneriaeth ag eraill, yn ystod y cyfnod o dan sylw. Os oes gwybodaeth am waith diogelu gan y Cyngor eisoes wedi ei gyhoeddi, megis yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, gan archwilwyr allanol, neu gan sefydliadau eraill, rydym yn cyfeirio'r darllenydd at y dogfennau hynny yn hytrach nag ailadrodd yr wybodaeth yma. Mae rhestr o'r adroddiadau hynny i'w gweld yn Adran 8.

1.3 Yn olaf, bydd yr adroddiad yn amlinellu blaenoriaethau'r Panel Strategol Diogelu ar gyfer y dyfodol.

## 2. CYFRIFOLDEBAU AC ATEBOLRWYDD

2.1 Nod y Panel Strategol Diogelu yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau diogelwch plant, pobl ifanc ac oedolion. Ers 2017/18 mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am drosolwg o faterion diogelu ehangach ar draws Gwynedd, megis Diogelwch Cymunedol.

2.2 Mae'r Panel yn ei dro yn atebol i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, sef y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn achos y Cyngor, sydd â'r atebolrwydd terfynol am faterion diogelu.

2.3 Cadeirydd y Panel dros y cyfnod o dan sylw oedd y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd, ac roedd yn cael ei gefnogi gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Morwena Edwards. Mae gweddill yr aelodaeth yn cynnwys: Aelodau Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant; Addysg; Cefnogaeth Gorfforaethol, Penaethiaid Adrannau Plant a Chefnogi Teuluoedd; Oedolion Iechyd a Llesiant; Cefnogaeth Gorfforaethol; Addysg; Swyddog Monitro; Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn, a Chadeirydd y Panel Gweithredol Diogelu.

2.4 Mae'r Panel Gweithredol Diogelu yn cefnogi'r Panel Strategol i weithredu ei flaenoriaethau ac i ymdrin â materion gweithredol ac ymarferol y maes gwaith. Panel mewnol o swyddogion yw hwn, gyda phencampwr diogelu pob adran o'r Cyngor yn eistedd arno, a hynny er mwyn sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan o faterion diogelu.

2.5 Mae perfformiad y Cyngor yn y maes diogelu yn cael ei asesu gan archwilwyr allanol annibynnol fel rhan o'u gwaith o asesu perfformiad ehangach. Mae dolenni i adroddiadau gan archwilwyr allanol i'w gweld yn Adran 8.

**3. CYNNYDD YN ERBYN Y MATERION DIOGELU**

3.1 Mae'r cyfnod dan sylw wedi bod yn gyfnod tu hwnt o heriol i'r maes Diogelu, yn bennaf yn sgil Covid-19 a'r heriau sy'n ymwneud â'r feirws. Er gwaethaf hynny, mae'r Panel Strategol Diogelu wedi parhau i gynnal cyfarfodydd ar-lein a symud yr agenda yn ei flaen.

3.2 Diogelu Plant

3.21 Mae'r flwyddyn a fu wedi bod yn heriol i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd oherwydd materion yn ymwneud â Covid-19 gan gynnwys cyfnodau clo, recriwtio a chadw staff, a phwysau gwaith.

3.22 Mae'n wir dweud bod y pwysau gwaith ar y gwasanaeth wedi bod yn llethol yn ystod y flwyddyn. Mae staff wedi bod yn gweithio oriau hir, a teg dweud bod nifer o staff wedi teimlo'r pwysau hyn. Er gwaethaf hyn oll, mae'r gwasanaeth wedi parhau i weithredu trefniadau diogelu.

3.23 Fodd bynnag, roedd pwysau Covid-19 ar staff wedi golygu bod yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn ei chael yn anodd recriwtio a chadw staff cymwysedig. O ganlyniad, comisiynwyd unigolyn i wneud darn o waith yn y maes, a gobeithir cyflawni'r gwaith hwn erbyn Ebrill 2022.

3.24 Erbyn ail hanner 2021, roedd Gweithwyr Cymdeithasol yn gwneud cysylltiadau wyneb yn wyneb, ynghyd â chysylltiadau gyda'r bobl ifanc sydd wedi gadael gofal y Cyngor. Gwaetha'r modd roedd Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol.

3.25 Er gwaethaf Covid-19, roedd ymateb i gyfeiriadau yn ymwneud â materion diogelu yn y Gwasanaeth Plant yn 99% ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau hefyd yn 99%.

3.26 Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 49 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a derbyniwyd 5,265 o gyfeiriadau newydd rhwng Ebrill a Rhagfyr 2021.

3.27 Yn ystod y flwyddyn lleihaodd nifer y plant mewn gofal i 269, gyda 39 yn dod i mewn i ofal a 61 yn gadael gofal.

3.23 Diogelu Oedolion

3.31 Yn dilyn cynnydd sylweddol yn nifer yr adroddiadau diogelu sydd wedi eu cyflwyno yn nechrau'r flwyddyn, sefydlogodd y niferoedd yn ystod ail hanner 2021, a bellach mae oddeutu 50 adroddiad yn cael eu cyflwyno'n fisol.

3.32 Nid oes themâu penodol yn yr adroddiadau ond mae esgeulustod yn un o'r prif fathau o gamdriniaeth sydd wedi ei adrodd yn ystod y flwyddyn.

3.33 Mae diffyg dealltwriaeth o ran yr angen i unigolyn ganiatáu i'r adroddiad yn parhau i achosi problemau. Mae'n hanfodol bod unigolion yn ganolog i'r broses – mae modd gwrthod unrhyw ymyrraeth os oes capasiti.

3.34 Mae'r canllawiau yn nodi bod angen cwblhau ymholiadau cychwynnol o fewn 7 diwrnod gwaith. Mae'r Uned Ddiogelu wedi bod yn cyflawni oddeutu 94% o'r ymholiadau yn yr amser yma yn gyson. Ond, gwelwyd dirywiad sylweddol yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, ac mae'r amser ymateb o fewn y gofyn statudol wedi gostwng i 75%. Mae'n ymddangos bod cyfuniad o resymau am hyn – diffyg adrodd yn gywir ond yn bennaf, oediad asiantaethau mewn ymateb o fewn yr amserlen. Mae'r pandemig wedi rhoi pwysau sylweddol ar asiantaethau ac er bod gwaith yn cael ei wneud i sicrhau diogelwch unigolion, mae oediad mewn derbyn y wybodaeth a'r dystiolaeth angenrheidiol i gau'r ymholiad.

3.35 Yn sgil Covid-19, bu pryder nad oedd modd cynnal ymweliadau monitro i gartrefi'r Sir, gyda phedwar cartref o dan y drefn 'Pryderon Cynyddol' oherwydd rhesymau'n amrywio o ddiffyg rheolaeth, problem dogfennaeth, pryder bathio a diffyg trosolwg. Sgil effaith hyn yw bod gwelyau yn wag yn y cartrefi yn ystod y cyfnod hwn. Roedd embargo wedi ei roi ar fynediadau newydd yn ystod y cyfnod hwn, oedd yn golygu bod gwelyau yn wag yn y cartrefi yn ystod y cyfnod. Mae'r embargo wedi codi mewn tri o'r cartrefi erbyn hyn ac mae'r gwlâu bellach wedi eu llenwi.

3.36 Bu pryder am y gwasanaeth DoLS (trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid) yn ystod y flwyddyn gan fod 550 ar y rhestr aros ar un pwynt. Fodd bynnag, cafwyd bid llwyddiannus am £100,000 gan y Llywodraeth i gyfarch y rhestr aros. Bu i'r Adran gomisiynu asiantaeth i gwblhau asesiadau ar eu rhan ac ymestyn cytundeb dwy asesydd budd gorau o fewn y tîm. Bydd y rhestr aros wedi lleihau'n sylweddol erbyn diwedd Mawrth 2022.

3.24 Addysg

3.41 Roedd yn rhaid i ysgolion gau am gyfnodau yn ystod 2021 oherwydd Covid-19. Wrth reswm. Arweiniodd hyn at blant a phobl ifanc y sir yn symud i ddysgu rhithwir neu addysgu o gartref.

3.42 Yn ychwanegol, dewisodd rhai rhieni i barhau i addysgu eu plant gartref pan y bu i'r ysgolion ail agor. Er bod y niferoedd yn gymharol isel, roedd cynnydd yn ystod cyfnod Covid-19 yn y nifer o ddisgyblion sydd yn cael eu haddysgu gartref, roedd y cynnydd yn fwy ymysg teuluoedd bregus.

3.43 Prif resymau y rhieni dros addysgu eu plant o gartref oedd pryder am faterion Covid-19, gan gynnwys yr elfen gwisgo gorchuddion wyneb. Gyda'r ysgolion ar agor ar athrawon yn dysgu drwy'r dydd doedd dim opsiwn o gael gwersi ar-lein

3.44 Yn ystod y cyfnodau hyn, bu swyddogion yn yr Adrannau Addysg a Phlant a Chefnogi Teuluoedd yn parhau i ddilyn y canllawiau addysgu a diogelu cyfredol er mwyn cadw cyswllt gyda phlant a theuluoedd oedd yn dewis addysgu o gartref.

3.45 Maes o law, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu deddfu'r angen i gofrestru plentyn os ydynt am dderbyn addysg o gartref.

3.46 Yn sgil dyfodiad gwefan Everyone's Invited, rhoddwyd sylw i'r maes aflonyddu rhywiol mewn ysgolion yn ystod y flwyddyn. Er bod pwyslais yn cael ei roi ar ddiogelu merched mewn ysgolion, mae hefyd angen gweithredu'n adweithiol a mynd i'r afael â'r diwylliant misogynistaidd ymysg bechgyn er mwyn mynd i wraidd y broblem.

3.47 Yn deillio o'r pryder o aflonyddu rhywiol, rhoddwyd sylw i'r maes cydraddoldeb mewn ysgolion, ac fe sicrhawyd bid unwaith ac am byth i gael pencampwr yn y maes addysg i edrych ar faterion megis LGBT, tlodi ac urddas mislif, lle bydd cynsail yn cael ei osod ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

3.25 <u>Trais yn y Cartref</u>

3.51 Roedd pryder cenedlaethol y byddai trais yn y cartref ar gynnydd yn genedlaethol yn sgil Covid-19. Y llynedd, nodwyd bod nifer yr achosion yn isel yng Ngwynedd. Fodd bynnag, yn anffodus mae data gan yr Heddlu yn dangos cynnydd yn y niferoedd o droseddau domestig yng Ngwynedd yn ystod y ddau chwarter diwethaf. Mae cynnydd o 21.4% yn Chwarter 3, sydd ychydig yn uwch na'r cynnydd a welwyd ar draws Gogledd Cymru gyfan (18.9%) am yr un cyfnod. Yn ddiweddar, adroddwyd yn y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio Rhanbarthol fod darparwyr arbenigol trais yn y cartref wedi gweld cynnydd o 35-40% mewn cyfeiriadau.

3.52 Mae cydweithrediad da rhwng y Cyngor a'r Mudiadau perthnasol ac mae ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o adrodd am drais yn y cartref yn parhau. Bydd y mater yma yn

cael ffocws yn ystod cyfarfodydd nesaf y Bartneriaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud digon i gael negeseuon allan i'r cyhoedd.

3.53 Mae llawer o sylw wedi'i roi i Drais yn y Cartref yn genedlaethol yn y flwyddyn ddiwethaf, ac mae pryder bod gwir nifer y bobl sydd wedi cael eu cam-drin yn y cartref yn uwch na'r hyn sy'n cael ei adrodd oherwydd Covid-19. Felly bydd angen cadw llygad ar y maes hwn yn y blynyddoedd nesaf a sicrhau bod negeseuon i godi ymwybyddiaeth yn cael eu rhannu'n gyson.

3.54 Fis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ei Strategaeth Genedlaethol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bwriad yr ymgynghoriad oedd edrych y prif flaenoriaethau i atal y trais hwn, ynghyd ag egwyddorion y dull gweithredu, gan gynnwys sut bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i bartneriaid. Disgwylir i ganlyniad yr ymgynghoriad gael ei gyhoeddi yn 2022.

3.55 Unwaith eto eleni, ymdrechwyd i annog aelodau staff i gwblhau'r e-fodiwl Trais yn y Cartref. Mae sicrhau bod staff wedi derbyn yr hyfforddiant hwn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi unigolion ac i godi ymwybyddiaeth.

3.56 Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd 3,258 wedi cwblhau'r e-fodiwl. Mae hyn yn gynnydd o 1,481 ers yr un cyfnod y llynedd (1,777). Er bod cynnydd wedi'i wneud, dim ond 49% o holl weithlu'r Cyngor sydd wedi cwblhau'r e-fodiwl, felly rhaid parhau i hyrwyddo ei bwysigrwydd a chynyddu nifer yr aelodau staff sy'n ei gwblhau.

3.57 Yn yr un modd, eleni bu'r hyfforddiant Gofyn a Gweithredu yn parhau i gael ei ddarparu ar-lein i'r adrannau Addysg; Oedolion, Iechyd a Llesiant, a Phlant a Chefnogi Teuluoedd. Mae rhaglen o ddigwyddiadau yn ei lle, fydd yn cael ei chyflwyno gan Gadeirydd a Chydlynydd Amddiffyn Plant a Chydlynydd Diogelu Oedolion mewn partneriaeth gyda RASAC Gogledd Cymru ar gyfer staff sector gofal; a gan Uwch Swyddog Diogelu Plant a Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad Cyngor Gwynedd mewn partneriaeth â Hafan Cymru ar gyfer staff y sector addysg.

3.58 Oherwydd y cymhlethdod o gyflwyno'r hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ar y cyd, ynghyd â chapasiti staff y Cyngor i'w gyflwyno, yn y dyfodol gallwn brynu i mewn gan ddarparwyr allanol. Mae rhaglen wrthi'n cael ei chynllunio ar gyfer hyn. Mae'r Adrannau Plant ac Oedolion yn awyddus i barhau i redeg rhai sesiynau ar gyfer staff sector gofal mewn partneriaeth â RASAC Cymru gan bod canran sylweddol o waith y gweithlu hwn yn aml yn ymwneud â theuluoedd ble mae camdriniaeth domestig yn bresennol.

3.59 Yn ogystal, rhoddir trefniadau ar waith i hyfforddi rhai gweithwyr i Lefel 3: Gofyn a Gweithredu yn ystod y flwyddyn 2022. Cyn cwblhau Lefel 2, mae' ofynnol bod gweithwyr wedi cwblhau'r e-fodiwl.

3.60 Rhaid cofio nad oes gan bob aelod staff y Cyngor fynediad rhwydd i systemau TG y Cyngor, ac hefyd mae'n anodd gofyn i staff achlysurol ymroi i gwblhau e-fodiwlau. Mae'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn cydweithio'n agos gydag Adrannau megis Priffyrdd a Bwrdeistrefol er mwyn adnabod ffyrdd gwahanol o gyrraedd staff rheng-flaen sydd heb fynediad TG. Mae trosiant staff yn uchel hefyd, sy'n cael effaith ar y cyfanswm sy'n cwblhau'r hyfforddiant.

3.61 Gweler fideo gan Carey Cartwright, Rheolwr Dysgu a Datblygu Cyngor Gwynedd, yn pwysleisio pwysigrwydd y maes Diogelu:
https://www.youtube.com/watch?v=Q5Kjl8cv0W4

3.26 Troseddu

3.61 O ganlyniad i'r cyfnodau clo yn ystod y flwyddyn, gwelwyd gostyngiad yn nifer y troseddau, o bob math, a adroddwyd i'r Heddlu. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf sylweddol mewn troseddau meddiangar o bob math, a throseddau treisgar. Yn dilyn codi cyfyngiadau Covid, cynyddodd nifer y troseddau yn araf i'r niferoedd a adroddwyd cyn y cyfnod clo mawr, ond nid pob un (e.e. byrgleriaeth breswyl, troseddau cerbyd).

3.62 Gwelwyd cynnydd yn y nifer o droseddau casineb ar sail hil, sydd wedi bod yn gysylltiedig i raddau helaeth â thensiynau rhwng unigolion sy'n arwain at gam-drin geiriol, sydd yn anffodus yn cael ei weld ledled y wlad wrth fod symudiadau pobl yn ystod cyfyngiadau Covid yn gallu achosi ffrithiant. Mae'r diffiniad cenedlaethol o droseddau casineb, fel y defnyddiwyd gan yr Heddlu, yn cynnwys gwahaniaethu ar hil unigolyn gan gynnwys gwledydd y DU, h.y. Cymraeg/Saesneg, felly dyma sut y recordiwyd digwyddiadau o'r fath.

3.27 Caethwasiaeth Fodern a Datganiad Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

3.71 Yng nghyfarfod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn yr hydref, nododd yr Heddlu bod achosion Caethwasiaeth Fodern oedd ar y gweill yn yr ardal yn ymwneud yn bennaf â cham-fanteisio cyffuriau, ac yn deillio'n bennaf o weithwyr ar ffermydd canabis a gwladolion tramor yn cael eu masnachu trwy Borthladd Caergybi at ddibenion gweithio yn y DU.

3.8 Gwrthderfysgaeth

3.81 Ym mis Rhagfyr 2020, derbyniwyd y Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth mwyaf diweddar ar gyfer Cymru, a oedd yn edrych ar faterion risg mewn perthynas â gwrthderfysgaeth. Drwy'r Proffil hwn, cafodd Gwynedd ei adnabod fel rhanbarth sydd â lefel risg isel; er hynny, mae nod i barhau i godi ymwybyddiaeth yn y maes. Rydym yn rhagweld y bydd Proffil newydd ar gael yn fuan, a bydd ein cynlluniau yn cael ei diweddaru pan fo'n amserol.

3.82 Ym mis Medi 2021, sefydlodd Cyngor Gwynedd Grŵp Mannau Cyhoeddus: Parodrwydd i Amddiffyn a Diogelu. Pwrpas y Grŵp yw:

- Cydweithio gyda sefydliadau er mwyn darparu trefniadau diogelwch amddiffynnol effeithiol ac effeithlon yng Ngwynedd
- Darparu ymdriniaeth diogelwch integredig, sy'n cyd-fynd â'r safonau a'r canllawiau cenedlaethol, i adnabod a darparu camau gweithredu cymesur er mwyn cadw cymunedau Gwynedd yn ddiogel
- Gwella a chefnogi'r parodrwydd i amddiffyn a diogelu mewn lleoliadau cyhoeddus hygyrch yng Ngwynedd.

3.9 <u>Atal/Prevent</u>

3.91 Yn niwedd 2020, bu gwaith yn mynd rhagddo i ddod â Chynllun Atal/Prevent at ei gilydd. Roedd Gwynedd yn ardal risg isel mewn perthynas â radicaleiddio ac eithafiaeth; er hynny, roedd angen amlygu'r ffactorau risg.

3.92 Cadarnhaodd y Swyddfa Gartref mai unigolion yn gweithio ar eu liwt eu hunain oedd y risg uchaf yng Ngwynedd mewn perthynas ag ideolegau cymysg amhenodol.

3.93 Yn sgil y Cynllun Atal, eleni rydym wedi dechrau cydweithio gydag Ymgynghorydd Rhanbarthol Atal Gogledd Cymru o fewn y Swyddfa Gartref er mwyn asesu'r risgiau'n barhaus a rhannu gwybodaeth.

3.10 <u>Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)</u>

3.10.1 Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfrifol am brosesu gwiriadau troseddol. Eleni, gyda chymorth y Grŵp Gweithredol, mae'r Panel Strategol wedi canolbwyntio ar ddeall y drefn DBS yn well a datblygu'r system brosesu.

3.10.2 Pwrpas gwiriadau DBS yw cynorthwyo cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio a thrwyddedu mwy diogel, ond dim ond un rhan o arfer recriwtio yw gwiriad. Pan fydd gwiriad wedi'i brosesu gan y DBS a'i gwblhau, bydd yr ymgeisydd yn derbyn tystysgrif DBS.

3.10.3 Bu'r Grŵp Gweithredol yn ymgymryd â gwaith sylweddol i wirio, herio ac ailymweld â'r drefn gorfforaethol o ran y DBS. O ganlyniad, mae Adrannau bellach yn perchnogi mwy ar y trefniadau DBS ac mae hyn wedi trawsnewid sut mae'r Grŵp Gweithredol yn adrodd ar ei gydymffurfiaeth ar ddadleniadau adrannol. Mae hyn yn golygu bod modd adrodd yn adrannol, fel sydd wedi'i nodi yn y tabl isod:

3.10.4 Wrth archwilio'r broses DBS gyfredol, mynegodd yr Adran Addysg ddymuniad i symud i drefn DBS wahanol, yn bennaf oherwydd cludadwyedd bob DBS, a bod y drefn gyfredol drwy Lerpwl yn cymryd oddeutu chwe wythnos, sy'n llawer rhy hir.

3.10.5 Yn sgil Covid-19, er mwyn cael gweithwyr brys mewn lle mor ddiymdroi â phosib, roedd ffurflenni DBS brys yn cael eu hanfon at Gyngor Powys i'w prosesu drwy'r drefn E-bulk rhwng mis Mawrth 2020 a Hydref 2021.

3.10.6 Mae tystiolaeth wedi dangos bod y wybodaeth angenrheidiol yn cael ei ddychwelyd o fewn 3 diwrnod ar gyfer staff argyfwng gofal. Yn ogystal, mae'r gyfradd gwallau yn 0.02% wrth ddefnyddio E-bulk, o'i gymharu â 10.8% gyda'n trefn arferol.

3.10.7 O ganlyniad i effaith gadarnhaol defnyddio E-bulk drwy Gyngor Powys, penderfynwyd y dylai Cyngor Gwynedd ddefnyddio system E-bulk, gan osod cerrig milltir yn y camau comisiynu a fyddai'n rhoi cyfle i adlewyrchu ar y system.

3.10.8 Yr unig bryder o ddefnyddio'r system E-bulk oedd nad oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, yn dilyn rhoi pwysau ar berchnogion y system, bydd ar gael yn y Gymraeg yn fuan.

3.10.9 Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd system E-bulk yn cael ei ddefnyddio gan Gyngor Gwynedd, gyda phob cais yn cael ei brosesu drwy'r system hon. Roedd hyn yn golygu bod defnydd o gopïau papur wedi lleihau, ynghyd â cheisiadau yn cael eu dychwelyd yn llawer cynt (dychwelwyd un cais o fewn diwrnod).

## 4. ADOLYGIADAU YMARFER

4.1 Mae Cymru wedi datblygu fframwaith Adolygu Dysgu Ymarfer Plant (CPR) i wella'r diwylliant o ddysgu gwersi o achosion amddiffyn plant. Mae adolygiadau 'cryno' neu 'estynedig' yn bodoli yn dibynnu ar amgylchiadau'r plentyn dan sylw. Maent yn cael eu cynnal gan Fwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Gogledd Cymru gyda'r nod o ddysgu gwersi i'w rhannu er mwyn ceisio osgoi achosion o'r fath i'r dyfodol.

4.2 Mae Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion Gogledd Cymru hefyd yn cynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion, sy'n unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a

Llesiant (Cymru) 2014. Diben yr Adolygiadau hyn yw nodi'r gwersi sydd i'w dysgu o achosion Diogelu Oedolion cymhleth neu anodd, a gweithredu newidiadau i wella gwasanaethau yn sgil y gwersi hyn.

## 5. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

5.1 Er bod y Panel Strategol Diogelu yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau corfforaethol yn ymwneud â materion diogelu o fewn Gwynedd, mae hefyd yn derbyn gwybodaeth ac arweiniad drwy Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, sy'n gweithio ar draws gogledd Cymru. Mae'r rhain yn Fyrddau Statudol gydag aelodaeth draws-asiantaethol, sydd â chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol. Mae'r Cyngor yn aelod o'r Byrddau hyn ac yn cyfrannu at weithredu eu cynlluniau. Mae gwybodaeth bellach am waith y Byrddau i'w weld yma - https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/ ac mae dolenni i adroddiadau blynyddol y Byrddau i'w gweld yn Adran 8.

5.2 Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn hefyd wedi dangos bod gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau siroedd yn profi'n llwyddiant. Ers y newid i gyfarfodydd rhithiol, mae presenoldeb wedi bod yn ardderchog ymhob cyfarfod ac mae pob partner yn cyfrannu'n gadarnhaol. Mae Rheolwr y Bartneriaeth yn eistedd ar y Panel Strategol Diogelu, ac mae gwaith y Bartneriaeth mewn meysydd megis Atal/Prevent yn hanfodol os yw'r Panel am sicrhau ansawdd trefniadau diogelu yng Ngwynedd.

5.3 Mae gan nifer o sefydliadau ddyletswydd statudol i fod yn rhan o'r bartneriaeth, gan gynnwys yr Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, gwasanaethau Prawf, y gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd. Mae gwybodaeth am bob agwedd ar ddiogelwch cymunedol y mae'r Cyngor yn ymwneud ag o ar ein gwefan.

5.4 Mae gwybodaeth am Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn, ynghyd â Chynllun Lleol Diogelwch Cymunedol 2021-22 i'w weld yma. Mae'r cynllun yn cael ei fonitro a'i adrodd yn ôl i aelodau pob chwarter. Er gwaethaf effaith parhaus y pandemig ar flaenoriaethau gwaith ein partneriaid, mae rhan fwyaf o'r gweithredoedd yn datblygu'n dda. Bydd sgôp i gynnwys unrhyw weithred anghyflawn yn y cynllun nesaf os yn addas.

5.5 Mae gofyn i'r Bartneriaeth adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor Craffu Gofal yn flynyddol er mwyn rhoi trosolwg o brif ddatblygiadau strategol y Bartneriaeth dros y flwyddyn. Ni chodwyd unrhyw bryderon yn y Pwyllgor Craffu yn Ionawr 2021.

## 6. Y DYFODOL

6.1 Er bod gwaith gwych yn digwydd o fewn adrannau gyda'r maes diogelu, mae'n fwriad gan y Panel i adlewyrchu ar drefniadau gweithio y Panel Strategol a'r Grŵp Gweithredol er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithiol. Bwriedir cynnal y gwaith hwn yn gynnar yn 2022, gan gyflwyno unrhyw newidiadau i weithrediad y grŵp a'r panel mewn da bryd ar gyfer cyfarfodydd haf 2022 ymlaen.

6.2 O ran blaenoriaethau'r Panel ar gyfer y flwyddyn i ddod, bwriedir cael cydsyniad aelodau'r Panel i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a ganlyn:

- Trais yn y cartref a thrais yn erbyn menywod
- Sicrhau trefniadau priodol i ddiogelu ffoaduriaid
- Parhau i fonitro a rheoli effaith Covid-19 ar gyfrifoldebau diogelu gwasanaethau

## 7. ARCHWILIADAU ANNIBYNNOL A DDERBYNIWYD YN YSTOD Y CYFNOD

Fel ag y nodwyd eisoes, mae asiantaethau allanol yn adolygu gwaith Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau. Mae'r adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod cyfnod yr Adroddiad hwn wedi eu rhestru isod:

<u>Arolygiaeth Gofal Cymru:</u>

- Llythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol Awdurdod Lleol 2020/21: Cyngor Gwynedd
- Llythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol Awdurdod Lleol 2019/20: Cyngor Gwynedd
- Llythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol Awdurdod Lleol 2018/19: Cyngor Gwynedd

## 8. DOLENNI I DDARLLEN PELLACH

- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd 2020/21
- Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru 2020/21
- Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru – Adroddiad Blynyddol 2020/21